

CABINET

DYDD LLUN 13^{EG} TACHWEDD 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

C.A. Davies

L.D. Evans

G. Davies

H.A.L. Evans

A. Lenny

E.G. Thomas

J. Tremlett

A. Vaughan-Owen

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (O bell):

Y Cyngorydd D.M. Cundy

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr

C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol

G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith

I. Jones, Pennaeth Hamdden

J. Jones, Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol

L. Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

C. Higginson, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau

M. Roberts, Syrfëwr Rheoli Asedau

K.J. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

R. Morris, Swyddog Cymorth i'r Aelodau

D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth i'r Aelodau

S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd

Hefyd yn bresennol (o bell):

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymryd Nodiadau)

M. Runeckles, Swyddog Cymorth i'r Aelodau

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell : 10.00 am - 10.30 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd P.M. Hughes.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 30AIN HYDREF 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2023 yn gofnod cywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. STRATEGAETH HAMDDEN, DIWYLLIANT, A HAMDDEN AWYR AGORED

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored 10 mlynedd newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a luniwyd i ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored 10 mlynedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst 2023, o ran 2023/24.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £8,730k ac yn rhagweld gorwariant o £6,098k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

7.1 Derbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd;

7.2 O ran gorwariant sylweddol ar feysydd penodol o'r gyllideb, bydd y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'n feirniadol yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r effaith barhaus.

8. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2023/24

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24, fel yr oedd ar 31 Awst 2023 gan fanylu ar y prosiectau newydd a'r trosglwyddiadau ariannol i'w nodi a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Nododd Atodiad A i'r adroddiad wariant net a ragwelir o £91,370k o gymharu â chyllideb net weithredol o £142,842k, gan roi amrywiad -£51,472k.

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglenni cyfalaf gwreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2023 a llithriad o 2022/23. Roedd rhai o'r cyllidebau hefyd wedi cael eu diwygio yn unol

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant gwirioneddol o gymharu â'r dyraniadau disgwylidig pan gafodd y rhaglen ei chymeradwyo, a grantiau newydd oedd wedi dod i law yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Manylwyd ar y prif amrywiadau ym mhob adran yn Atodiad B i'r adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 8.1 bod yr adroddiad ar ddiweddarau'r rhaglen gyfalaf 2023/24 yn cael ei dderbyn;**
- 8.2 bod y prosiectau newydd, fel yr oeddent yn yr adroddiad, yn cael eu nodi a'u cytuno, i'w hariannu gan danwariant taliadau cyfalaf y flwyddyn gyfredol.**

9. TREFNIADAU CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU (AWDURDODAU LLEOL) CYMRU

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer datblygu llywodraethu a dulliau galluogi Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru wrth iddo gymryd cyfrifoldeb dros Maethu Cymru 2. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio sicrhau cytundeb i lofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 9.1 nodi'r adroddiad diweddarau.**
- 9.2 cytuno bod yr Awdurdod yn lofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.**

10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

12. GWAREDU PARC DEWI SANT, HEOL FFYNNON JOB, CAERFYRDDIN

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod Eitem 11 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn anfantais faterol i'r Awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai cael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu ar y cynigion ar gyfer gwaredu Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fwrw ymlaen â'r argymhelliad fel y manylir yn yr adroddiad.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf